

Meini Prawf Ariannu:

Cronfa Ddarbodus Effeithiau Cymdeithasol (Cymru)

Mae Cronfa Ddarbodus Effeithiau Cymdeithasol (Cymru) yn anelu at gefnogi cynhwysedd cymdeithasol. Nod allweddol y gronfa yw cefnogi prosiectau a gweithgareddau'n sy'n talu sylw i anghenion a nodir drwy ymgynghori a / neu cysylltu gyda'r rhai a allai elwa o'r Gronfa ac sy'n dangos yn glir sut i gael y canlyniadau y maen nhw'n bwriadu eu cyflawni.

Rhaid i'r prosiectau gynnwys pobl yn yr ardal beth bynnag yw eu cefndir, gynnig budd eang a bod yn gost effeithol.

Dylai'r prosiectau gyfarfod ag o leiaf un o'r blaenoriaethau canlynol:

- Gwella gallu ariannol personol pobl (cyngor / addysg ynghylch dyledion ac arian)
- Gwella iechyd corfforol a / neu feddyliol
- Darparu cefnogaeth sy'n gwella, yn creu ac yn cynnal perthynasau teuluol positif
- Talu sylw i'r problemau o gyrhaeddiad addysgol isel a gwella canlyniadau dysgu
- Darparu cyfleoedd i bobl i leihau anghyfartaledd, eithrio ac anfantais gan gynnwys prosiectau sy'n hwyluso i bobl gael gwaith.

Grantiau ar gael

- Grantiau rhwng £1,000 a £5,000.

Pwy a all ymgeisio?

Grwpiau cymunedol, Elusennau, mentrau cymdeithasol a Sefydliadau Elusennol eraill o'r sector gwirfoddol sydd â:

- Chyfansoddiad neu ddogfen lywodraethu berthnasol arall.
- Pwyllgor rheoli / bwrdd o gyfarwyddwyr / ymddiriedolwyr gydag o leiaf dri o bobl heb fod yn perthyn.
- Cyfrif banc yn enw'r grŵp gydag o leiaf dau lofnodwr heb fod yn perthyn.
- Darparu copi wedi'i lofnodi o ddatganiad banc mwyaf diweddaf eich Sefydliad.
- Wedi'u lleoli yn ac yn cefnogi bobl sy'n byw yn ardaloedd 15% mwyaf difreintiedig Cymru. Gallwch wirio'ch cynhwysedd trwy glicio **yma** - mae angen i WIMD fod yn 300 neu lai.

Eithriadau

Ni roddir grantiau i nac ar gyfer:

- Sefydliadau masnachol
- Nawdd (gan gynnwys cit chwaraeon) neu apeliadau marchnata
- Unigolion gan gynnwys myfyrwyr
- Banciau bwyd
- Gweithgareddau prif ffrwd a gofynion statudol ysbytai a chanolfannau meddygol (gan gynnwys Ymddiriedolaethau GIG), prifysgolion a cholegau
- Sefydlu / cadw cronfeydd gwaddol / lles

- Sefydliadau sy'n ail ddosbarthu cyllid ar gyfer cynnig grantiau i sefydliadau a / neu unigolion eraill
- Teithiau dramor
- Grwpiau crefyddol neu ethnig unigol - dydyn ni ddim yn cefnogi sefydliadau sy'n hyrwyddo eu gwerthoedd eu hunain. Fe fyddem ni, fodd bynnag, yn ystyried cefnogi gweithgareddau sefydliadau o'r fath pe bydden nhw'n cael eu hanelu at gefnogi'r gymuned ehangach yn unol â'r canllawiau hyn
- Grwpiau gwleidyddol neu filitaraidd – er y byddem ni'n ystyried cefnogi sefydliadau sy'n cefnogi cyn-filwyr yn unol â'r canllawiau hyn
- Apeliadau am gyfalaf ar gyfer prosiectau adeiladu e.e. ar gyfer ail-adeiladu canolfan gymunedol, canolfannau treftadaeth, canolfannau croeso, amgueddfeydd, theatrau neu fannau addoli
- Adfer hanesyddol / cyhoeddiadau hanesyddol
- Sefydliadau dramor – mae hyn ynghylch cefnogi ein cymunedau lleol
- Sefydliadau lles anifeiliaid
- Sefydliadau sydd ag incwm o dros £250,000 yn y flwyddyn ariannol fwyaf diweddar

Sut i ymgeisio?

Mae'n rhaid i bob grŵp lenwi ffurflen gais ar lein y gellir ei chael drwy ein gwefan.

Cofiwch:

- Dim ond un cais ellir ei ystyried gan Sefydliad.
- Mae'n well gennym ni i'r grant fod yn 50% o leiaf o gyfanswm costau'r gweithgaredd neu'r prosiect o fewn y meini prawf a nodir.
- NI fydd grantiau'n cael eu dyfarnu'n ôl-weithredol h.y. ar gyfer costau sydd wedi codi cyn y dyddiad cau am geisiadau
- Rhaid i ymgeiswyr allu dangos yr angen ariannol a chymdeithasol y bydd y grant yn ei ddiwallu